

GWEITHIO GYDA'N GILYDD AM WELL DYFODOL

Galluogi mynediad
at addysg oedolion
i gymunedau
Sipsiwn, Roma a
Theithwyr



**PECYN CYMORTH
I YMARFERWYR
YNG NGHYMRU**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

“Am yn rhy hir mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi cael eu hallgau neu ei chael yn anodd i deimlo yn rhan o gyfleoedd addysg ar bob lefel. Cyfrannodd diffyg ymwybyddiaeth, hyblygrwydd, cefnogaeth a pherthnasedd at y rhwystrau y gall myfyrwyr posibl o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr (SRT) eu hwynebu boed yn yr ysgol, mewn addysg bellach, uwch neu oedolion.

Mae llawer o'r bobl ifanc a'r oedolion y mae Teithio Ymlaen yn gweithio gyda nhw yn dymuno gwella eu cyfleoedd a'u dysg yn academiaidd a galwedigaethol, ond eto maent yn wynebu diffyg dealltwriaeth a rhagfarn weithiau a all wneud iddynt deimlo 'nad yw addysg i mi'. Mae'n hanfodol gweithio ochr yn ochr â chymunedau i ddod o hyd i ffyrdd ymarferol a chadarnhaol o roi cefnogaeth a strwythur i'w hannog i gymryd cyfleoedd, neu ddychwelyd at gyfleoedd addysgol yn y ffordd iawn ac ar y cyflymder cywir. Fel y dywedodd un unigolyn ifanc wrth ymweld â champws prifysgol am y tro cyntaf - 'Dwi am gael blas ar hyn!'

Mae'n bryd i gyfartaledd cyfle fod yn wirioneddol ystyrlon i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac i sefydliadau addysgol wneud y newidiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Trudy Aspinwall

Rheolwr Tîm

Teithio Ymlaen: Gwasanaeth Cyngori ac Eiriolaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr

"Mae wedi newid fy mywyd yn llwyr, roeddwn yn byw ar y dŵl heb waith a nawr rwy'n edrych ar swyddi na fyddwn erioed wedi breuddwydio amdany'n nhw."

Shelley Arthur
Profiad Dysgwr

"Un peth yr wyf yn ei ddysgu yn gyflym iawn yw bod ymddiriedaeth yn ffactor mawr; a rhaid ennill ymddiriedaeth. Allwch chi ddim disgwyl i bobl ymateb yn gadarnhaol i brosiect newydd sbon yn syth. Dim ond chwe mis i'r gwaith, rwy'n gwybod bod raid i mi fod yn gyson yn fy null a bod y cyfan yn ymwneud ag ymgysylltu; dod i adnabod y cymunedau, dod i adnabod y teuluoedd, gwrando a cheisio cyflawni yn union beth sydd ar bobl ei eisiau."

"Gyda phob cwrs roedd fy hyder yn cynyddu. Er ei bod wedi cymryd ugain mlynedd a mwy i mi sylweddoli nad oeddwn yn ddwl, o'r diwedd roeddwn yn meddwl falle y gallwn i wneud yr un pethau â phobl eraill."

Leeanne Morgan
Profiad Dysgwr

Gareth Thomas,
Prosiect PROSPER,
Sipsiwn a Theithwyr
Cymru.

CYFLWYNIAD

Datblygwyd yr adnodd hwn gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac wrth ymateb i Gynllun Gweithredu Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr Llywodraeth Cymru.

Sefydliad polisi ac ymchwil annibynnol yw'r Sefydliad Dysgu a Gwaith sy'n ymroddedig i hybu dysgu gydol oes, cyflogaeth lawn a chynhwysiant yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Rydym yn dwyn at ei gilydd 90 mlynedd o hanes ac etifeddiaeth o'r 'Sefydliad Cenedlaethol Addysg Barhaus Oedolion' a'r 'Ganolfan Gynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol'. Rydym am i bawb gael cyfle i wireddu eu potensial o ran dysgu, gwaith a thrwy gydol eu hoes.

Diben yr adnodd hwn yw galluogi ysgolion a darparwyr addysg ôl 16 i ystyried eu hymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac i gefnogi gwell cynllunio ar gyfer cynhwysiant mwy effeithiol a mynediad at gyfleoedd dysgu.

Datblygwyd yr adnodd hwn trwy drafodaethau gyda dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a sefydliadau sy'n eu cefnogi. Cafwyd gwybodaeth ac astudiaethau achos o bob cwr o Gymru a thu hwnt.

Cynhwysir dolenni i ddeunydd astudiaethau achos fideo, sain ac ysgrifenedig i ddangos sut y mae prosiectau a sefydliadau yn cyflawni cyfleoedd dysgu effeithiol.

Man cychwyn yw'r pecyn cymorth hwn ar gyfer sgysiau pellach, gwaith mewn partneriaeth a gweithredu i wella lefel yr ymgysylltiad â Sipsiwn, Roma a Theithwyr, dealltwriaeth ohonynt a'u llwyddiant mewn addysg oedolion.



“Er bod pob un o’r cymunedau hyn yn wahanol iawn, maent yn aml yn wynebu anawsterau tebyg wrth geisio cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus ac yn profi canlyniadau gwael tebyg.... Bydd gwahaniaethau ieithyddol, diwylliannol a daearyddol yn aml yn golygu y bydd y gefnogaeth yn amrywio.”

Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr,
Cynllun Gweithredu
Llywodraeth Cymru.

Y SIALENSIAU

9 ALLAN O 10

O DDISGYBLION SRT YN GADAEI YR YSGOL HEB BUMP TGAU DA



"Mae 9 allan o 10 disgybl SRT yn gadael yr ysgol heb bump TGAU da: Mae llai na 10% o ddisgyblion Sipsiwn/Roma a llai na 20% o ddisgyblion sy'n Deithwyr Gwyddelig yn cyflawni 5 TGAU gradd A - C, mewn cymhariaeth â thua 60% o'r holl ddisgyblion yn genedlaethol."*

Ffynhonnell - Adroddiad Kings College 2017

"Mae cyfraddau presenoldeb a chyrhaeddiad addysgol yn parhau yn is nag i grwpiau eraill, mae'r deilliannau iechyd yn waeth, diweithdra yn uwch nag i'r boblogaeth yn gyffredinol ac mae gwahaniaethu yn dal i ddigwydd yn gyson. Mae angen rhagor o waith i sicrhau ein bod yn cynnal y cynnydd tuag at gydraddoldeb i'r grwpiau hyn."

Cyflwyniad - Galluogi Sipsiwn,
Roma a Theithwyr 2018



10

GWAITH YN LLAI TEBYGOL O FYND I BRIFYSGOL

"Mae Sipsiwn, Roma a Theithwyr (GRT) ddeg gwaith yn llai tebygol o fynd i brifysgol: 3-4% o Sipsiwn, Roma a Theithwyr 18-30 oed a aeth i Addysg Uwch yn 2014, mewn cymhariaeth â 43% o rai 18-30 oed yn y boblogaeth genedlaethol."

**Ffynhonnell - Adroddiad
Kings College 2017**

GWAHANIAETHU HANNER POBL PRYDAIN



"Gwahaniaethu - Cyfaddefodd hanner pobl Prydain bod ganddynt 'farn anffafriol' am bobl Roma mewn arolwg yn 2014."

Ffynhonnell - Adroddiad Kings College 2017



CHWARTER YN CYFLAWNI LEFEL DDA O RAN DATBLYGIAD

"Hyd yn oed ar ddiwedd eu blwyddyn derbyn, dim ond chwarter disgyblion Sipsiwn a Roma sy'n cyflawni "lefel dda o ran datblygiad" mewn cymhariaeth â mwy na dwy ran o dair o'r disgyblion yn gyffredinol."

Ffynhonnell - Adroddiad Kings College 2017

"Mae ffordd bell iawn i fynd o hyd i sicrhau y gall pobl o'r cymunedau hyn gael mynediad at wasanaethau ar sail gyfartal ag unrhyw un arall, heb wynebu gwahaniaethu."

Julie James, AC
Rhagair Galluogi Sipsiwn,
Roma a Theithwyr 2018

POLISI LLYWODRAETH CYMRU

Mae [Cynllun Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr 2018](#) yn disodli Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflawni Teithio at Well Dyfodol 2011 ac yn parhau yr unig strategaeth yn y Deyrnas Gyfunol sydd yn benodol ar gyfer ceisio gwella deilliannau i Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae'r adroddiad yn rhoi cynllun gweithredu clir i gefnogi cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr o gwmpas meysydd polisi allweddol fel tai, iechyd ac addysg, gwaith, cyngor ac eiriolaeth, rhannu gwybodaeth a rhwydweithiau cymunedol. Mae'r cynllun yn cyd-fynd â pholisïau a chyfreithiau allweddol eraill gan gynnwys: [Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol, Symud Cymru Ymlaen 2017](#), Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

GWYLIWCH

DARLLENWCH

GWELEDIGAETH

Mae Dysgu Oedolion yng Nghymru, dogfen bolisi Llywodraeth Cymru yn 2017 yn datgan:

"Cymru lle mae dysgu yn elfen ganolog o bopeth a wnawn; lle mae cyfranogiad mewn dysgu yn cael ei annog a'i wobrwyo; a lle mae pobl yn cael cyfle cyfartal i ennill y sgiliau a'r gwaith sydd eu hangen arnynt mewn bywyd i ffynnu"

DARLLENWCH RAGOR

"Mae Dysgu Oedolion yn helpu i ddatblygu sgiliau, yn gwella iechyd a llesiant ac yn ffordd o sbarduno gwaith ymgysylltu ac integreiddio cymdeithasol. Mae sgiliau yn hanfodol i economi'r wlad ac rydym am helpu oedolion i fagu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith; neu i symud ymlaen i ddysgu pellach. Rydym am sicrhau bod pob person yng Nghymru yn cael cyfle i fagu sgiliau sylfaenol da i'w helpu i fyw a ffynnu yn ein cymunedau. Yn ogystal â magu sgiliau, mae Dysgu Oedolion yn dod â manteision ehangach. Rydym am annog pob un oedolyn i fwynhau dysgu. Mae Dysgu Oedolion yn broses mor werthfawr am fod ganddi'r potensial i gyrraedd unigolion ar lawr gwlad, yn arbennig y rhai na fyddent fel arall yn mynd ati i ddysgu. Byddwn yn canolbwyntio ein hadnoddau cyhoeddus ar helpu'r rhai sydd fwyaf angen ein help; i sicrhau bod pawb yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu a symud ymlaen. Rydym o'r farn bod hwn yn fuddsoddiad pwysig a gwerth chweil mewn unigolion a chymunedau."

DARLLENWCH

"Mae llawer o ysgolion yn defnyddio eu cyllid Grant Datblygu Disgyblion i agor eu dosbarthiadau i rieni a gofalwyr yn ystod neu ar ôl oriau ysgol i'w hannog i ddysgu. Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion i ymgysylltu â darparwyr Addysg Oedolion, ac i ddefnyddio rhaglenni fel y Grantiau Datblygu Disgyblion i roi darpariaeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar oedolion a phlant. Byddwn yn cefnogi darparu gweithgaredd ymgysylltu meddalach fel dull o ddenu dysgwyr a fyddai fel arall yn gyndyn o gymryd rhan."

Polisi Dysgu Oedolion
Cymru 2017

Dengys astudiaethau bod ymwneud rhieni ag ysgolion bedair gwaith mor bwysig â dosbarth cymdeithasol-economaidd wrth ddylanwadu ar berfformiad academaidd pobl ifanc 16 oed

Dysgu fel Teulu ar Waith,
Yr Ymchwiliad i Ddysgu fel Teulu
yn Lloegr a Cymru – NIACE 2013

DARLLENWCH RAGOR



ASTUDIAETHAU ACHOS

YMARFERWR

GARETH YN HEL ATGOFION AM EI BROFIAD FEL YMARFERWR

Gareth Thomas, Swyddog Gwaith a Sgiliau, Sipsiwn a Theithwyr Cymru.

Datblygodd Sipsiwn a Theithwyr Cymru PROSPER, prosiect 5 mlynedd gyda chyllid y Loteri Fawr yn cynorthwyo Sipsiwn a Theithwyr i gael y sgiliau a'r hyder angenrheidiol i fynd i waith ac addysg bellach.

Mae Gareth yn ystyried ei brofiad fel ymarferwr a'i gyngor ar gyfer ymgysylltu yn llwyddiannus a gweithio gyda phobl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.



DARLLENWCH RAGOR

“Un peth yr wyf yn ei ddysgu yn gyflym iawn yw bod ymddiriedaeth yn ffactor mawr; a rhaid ennill ymddiriedaeth.”

Gareth Thomas, Swyddog Gwaith a Sgiliau, Sipsiwn a Theithwyr Cymru.

SEFYDLIAD

LAWNSIO PROSIECT PROSPER YN 2017

Dechreuodd Sipsiwn a Theithwyr Cymru weithio gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghaerdydd yn 1981. Yn 2017 lansiwyd y Prosiect Cefnogi Gwaith a Sgiliau, PROSPER. Dyma drosolwg o'r prosiect a'i effaith hyd yn hyn.



DARLLENWCH RAGOR

GWYLIWCH

PROFIAD DYSGWR

TAITH LEEANNE I GAEL EI GRADD SYLFAEN

Leanne yn rhannu ei phrofiad wrth ddysgu, o ddolenni cymunedol i gwblhau ei gradd sylfaen yn llwyddiannus.



DARLLENWCH RAGOR

“Roeddwn yn mynd i'r ysgol hyd at fy TGAU a oedd yn ôl bryd hynny yn yr 80au a'r 90au oedd ddim yn rhywbeth y byddai plentyn o sipsi yn ei wneud”.

Leanne Morgan

SEFYDLIAD

YMGYSYLLTU A CHEFNOGAETH HYFFORDDI

Mae Dynamix yn fudiad cydweithredol sy'n cynnig cefnogaeth ymgysylltu, hwyluso a hyfforddiant i grwpiau cymunedol. Dyma grynodedb o brosiect a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru oedd yn gweithio gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr o 2014 i 2017.

DARLLENWCH RAGOR



ASTUDIAETHAU ACHOS

PROFIAD DYSGWR

ROSE PROBERT O TGAU SAESNEG I RADD

Rose, enillydd Gwobr Ysbrydoli! yn rhannu ei thaith addysgol.



DARLLENWCH RAGOR

GWYLIWCH

SEFYDLIAD

YSGOL MONKTON YN GANOLFAN GYMUNEDOL

Defnyddiodd ysgol Monkton Priory ei Grant Datblygu i ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach.



DARLLENWCH RAGOR

GWYLIWCH

SEFYDLIAD

FFORYMAU IEUENCTID I GYNYDDU HYDER A DYHEADAU

Mae First Campus yn gweithio gyda Theithio Ymlaen i gefnogi Fforymau Ieuenctid Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan helpu i gynnig cyfleoedd a chynyddu eu dyheadau.



DARLLENWCH RAGOR

SEFYDLIAD

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDA'R BRIFYSGOL LEOL YN CYNNIG LLWYBRAU I SYMUD YMLAEN

Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi bod yn gweithio gydag ysgol Monkton Priory i gyflwyno eu gradd sylfaen yn y gymuned.



DARLLENWCH RAGOR

GWYLIWCH

PROFIAD DYSGWR

SHELLEY ARTHUR O WIRFODDOLWR YSGOL I RADD MEISTR

Cychwynnodd Shelley ei thaith addysg oedolion trwy wirfoddoli yn ysgol ei merch. Mae hi'n awr yn gwneud ei Gradd Meistr.



DARLLENWCH RAGOR

SEFYDLIAD

YMCHWILIO I'R RHWYSTRAU SY'N ATAL CAEL MYNEDIAD AT ADDYSG UWCH

Mae Prifysgol Sussex wedi bod yn ymchwilio i'r rhwystrau a'r sy'n wynebu pobl o gymunedau SRT wrth iddynt gael mynediad at Addysgu Uwch yn eu prosiect HEIM.



GWYLIWCH

ASTUDIAETHAU ACHOS

SEFYDLIAD

DULL STRATEGOL O YMGYSYLLTU A CHYMRYD RHAN

Trudy Aspinwall, Rheolwr Tîm yn Teithio Ymlaen yn rhoi rhai awgrymiadau ar gyfer defnyddio dull strategol o ymgysylltu a rhoi gwasanaethau i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

DARLLENWCH RAGOR




PROFIAD DYSGWR

GEMMA TURNBULL

Am ei bod am sicrhau gwell dyfodol i'w theulu, dechreuodd Gemma edrych ar gyfleoedd dysgu yn ei chymuned leol a chofrestru ar gwrs blasu Dyniaethau 10 wythnos.

DARLLENWCH RAGOR

GWYLIWCH




PROFIAD DYSGWR

MARTIN GALLAGHER

YN YSTYRIED MANTEISION EHANGACH DYSGU OEDOLION

Swyddog Ymgysylltu Teithio Ymlaen, Martin Gallagher, yn ystyried ei brofiad o ddysgu fel oedolyn a sut y mae wedi rhoi'r sgiliau a'r hyder iddo i herio a gwneud newidiadau.

DARLLENWCH RAGOR



“Pan fyddaf yn sôn am addysg, nid dim ond mater o fynd i'r ysgol neu gael gradd yw hynny fel y dewisais i wneud. Mae'n ymwneud â dysgu am bethau sydd o bwys, eich ymarfogi eich hun â'r wybodaeth y mae arnoch ei heisiau a'i hangen i wynebu'r byd, ac i addysgu eraill. Rhoddodd fy addysg yr wybodaeth a'r hyder i mi helpu pobl SRT eraill i godi llais a sicrhau bod ein lleisiau yn cael eu clywed gan y bobl sydd â 'grym', neu ar hyd ffordd wahanol, gan herio cyfreithiau a deddfwriaeth, bod yn rhan o wleidyddiaeth, yn ymladd dros gydraddoldeb. Trwy allu gwneud hyn yr oeddwn yn teimlo bod cael addysg yn gefn i mi yn werth chweil.”

Martin Gallagher
Swyddog Dysgwyr ac
Ymgysylltu yn Teithio
Ymlaen.

AWGRYMIADAU DA AR GYFER ARFER GORAU

Tynnwyd yr Awgrymiadau Da o gyfweiliadau ac arolwg gydag ymarferwyr addysg oedolion a dysgwyr o bob rhan o Gymru.

AWGRYM: Ymgysylltu tymor hir, ymddiriedaeth a modelau rôl yn y gymuned

Pwysleisiodd ymarferwyr a dysgwyr bwysigrwydd ymgysylltu tymor hir a chael modelau rôl yn y gymuned. Mae'n cymryd amser i ennyn ymddiriedaeth a llunio perthynas ac i oresgyn rhwystrau.

Darlunnir hyn yn rymus gan astudiaethau achos [Ysgol Monkton Priory](#) a [PROSPER](#)

"Roedd merched eraill o'r gymuned Teithwyr yn gwneud y cwrs ac yn dweud ei fod yn dda iawn, felly mi wnes i'r cwrs hefyd" – [Astudiaeth achos Shelley Arthur](#)

AWGRYM: Gweithwyr cyswllt - pobl allweddol sydd ag ymddiriedaeth a chyswllt gyda chymunedau

Mae gweithwyr cyswllt sy'n gallu cynyddu ymddiriedaeth a chysylltiadau gyda chymunedau yn aml yn un o gonglfeini llwyddiant. Mae canlyniadau da yn aml o ganlyniad i gael mynediad at seilwaith a rhwydwaith sydd wedi sefydlu, er yn brin o adnoddau yn aml, gan gysylltu gyda sefydliadau Sipsiwn, Roma a Theithwyr arbenigol a mannau cyswllt yn y gymuned. Yn yr astudiaeth achos [First Campus](#) roeddent yn dibynnu ar eu cysylltiadau â Teithio Ymlaen a gweithwyr prosiect yn yr ysgolion i gyrraedd y bobl ifanc perthnasol.

Mae'r dyfyniadau isod yn dangos rhai o'r sialensiau pan gollir y cysylltiadau hyn.

"...Yn y gorffennol rydym wedi darparu sesiynau sgiliau hanfodol pan oedd prosiectau amrywiol yn rhedeg. Heb weithiwr prosiect mae'r sesiynau wedi stopio bod yn hyfyw - nid yw dysgwyr yn ymrwymo ac ati."

"Mae wedi bod fwyaf llwyddiannus pan fydd gweithiwr datblygu wedi bod yna i weithio'n glos gyda'r cymunedau a chefnogi'r dysgwyr i fynd i wersi."

Rydym wedi gweithio gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y gorffennol ond collwyd y cyswllt gyda rhai o'r bobl cyswllt ac nid oedd yr ystafell gymunedol ar gael felly nid ydym yn gweithio gyda nhw ar hyn o bryd.



YMGYSYLLTU TYMOR HIR MODELAU RÔL YN Y GYMUNED, GWEITHWYR CYSWLLT

AWGRYM: Gweithio mewn partneriaeth

Fe wnaethom dderbyn adborth am bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyrraedd y cymunedau ac ymgysylltu â nhw. Mae prosiect **PROSPER** yn dangos sut y mae'r gweithio hwn mewn partneriaeth yn hanfodol i ddwyn gwasanaethau i gymunedau fel tiwtoriaid arbenigol ar gyfer y gefnogaeth sgiliau hanfodol un i un. Mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd sefydlu partneriaethau i helpu i bontio ymgysylltu â dysgwyr gyda gwasanaethau ehangach, er enghraifft y cysylltiadau gyda Busnes Cymru.

AWGRYM: Pwysigrwydd gweithgareddau ymgysylltu heb eu hachredu a chynnydd ar hyd llwybrau

Dengys astudiaethau achos Monkton Priory a **PROSPER** bwysigrwydd sicrhau bod y cyfleoedd ymgysylltu cychwynnol yn cyd-fynd â'r hyn y mae'r gymuned yn ei ddymuno. Amlygir hyn hefyd ym Mholisi Dysgu Oedolion 2017 sy'n annog defnyddio gweithgareddau ymgysylltu a chysiau 'bachu'.

Mae'n bwysig hefyd i lwybrau cynnydd gael eu dynodi i ddysgwyr, mae **astudiaeth achos Leeanne's** yn dangos sut y gwnaeth ei thaith ddysgu ei harwain o'r ymgysylltiad cyntaf â phrosiect Undod a **Dynamix** hyd at ddysgu cymunedol lleol ac addysg uwch.

AWGRYM: Ysgolion fel canolbwynt ar gyfer dysgu teuluol i oedolion

Mae astudiaeth achos Monkton Priory yn enghraifft wych o'r modd y mae'r ysgol leol yn gallu bod yn ganolbwynt ar gyfer dysgu oedolion cymunedol. Defnyddiodd Monkton Priory

eu Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi rhaglen ymgysylltu a dysgu llwyddiannus i rieni, gofawyr a'r gymuned ehangach.

AWGRYM: Cael y lleoliadau cywir

Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr i'r holiadur a'r astudiaethau hefyd bwysigrwydd dod o hyd i'r lleoliadau iawn a pha mor heriol y gall hyn fod. Cytunwyd yn gyffredinol bod cael darpariaeth yng nghanol cymunedau yn bwysig iawn, ond nid oedd lleoliadau ar gyfer hynny bob amser.

AWGRYMIADAU DA AR GYFER ARFER GORAU

AWGRYM: Angen cynnig sesiynau yn y gymuned yn hytrach na disgwyl iddynt deithio i ddosbarthiadau."

Mae gan rai safleoedd Sipsiwn, Teithwyr awdurdod lleol ystafell gymunedol, ond nid oes gan y rhain gyswllt â'r we bob amser, neu nid ydynt ar agor ar yr amserau cywir.

"Her arall yw rhedeg gweithgareddau a sesiynau cefnogi ar y safleoedd. Roedd hynny yn rhywbeth yr oedd rhai aelodau o'r gymuned yn teimlo yn gryf amdano ac yn ei ddymuno. Fodd bynnag nid yw un safle wedi ei drefnu i wneud hyn yn effeithiol o gwbl; mae yna rhyw fath o porta cabin yno sy'n oer iawn yn y gaeaf ac nid oes offer TG na chyswllt Wi-Fi yno felly mae ceisio gwneud rhywbeth hanfodol fel chwilio am swyddi ar-lein neu gefnogaeth Credyd Cynhwysol yn amhosibl bron."

AWGRYM: Darpariaeth hyblyg a pherthnasol yn cael ei gyfarwyddo gan ddysgwyr

Clywsom yn gyson gan ymarferwyr am yr angen i roi darpariaeth gryno, hyblyg, perthnasol yn alwedigaethol ac wedi ei greu i'r diben i ddysgwyr yn eu lleoliadau cymunedol.settings.

Mae'r enghreifftiau llwyddiannus o hyn yn cynnwys y cyrsiau Theori Prawf Gyrru sy'n cael eu cynnig gan y prosiect [PROSPER](#) a chysylltiadau gyda chysiau Busnes Cymru sy'n addas i'r rhai sy'n rhedeg neu sy'n dymuno rhedeg eu busnes eu hunain. Datblygwyd y rhain ar ôl ymgysylltu, trafod a chytuno gyda'r gymuned. Mae. [astudiaeth achos Shelley](#)

hefyd yn amlygu pwysigrwydd y cyrsiau cymorthyddion dosbarth perthnasol yn alwedigaethol, oedd yn gweithredu fel llwybr cynnydd o wirfoddoli i weithio yn ei hysgol leol.

"Bydd arnoch angen cysylltu â chyfleoedd gwaith gwirioneddol. Roedd yn dda iawn ymwneud â'r cwrs tra roeddwn yn gwirfoddoli ac yn gweithio yn yr ysgol. Mae'r cwrs yn eich gwneud yn well yn eich gwaith". Mae angen i ddarparwyr dysgu hefyd fod yn hyblyg wrth ddarparu a chyfarfod dysgwyr lle maen nhw. Mae Gareth, o brosiect PROSPER yn esbonio pam na wnaeth cwrs grŵp sgiliau sylfaenol lwyddo, ond mae'r dysgwyr wedi defnyddio cefnogaeth un i un gyda thiwtor lleol.

**LLWYBRAU,
YMDDIRIEDAETH,
LLWYBRAU SYMUD YMLAEN,
CYRSIAU HEB EU HACHREDU,
YSGOLION FEL CANOLFANNAU**

PARTNERIAETH, YMGYSYLLTU, LLEOLIADAU, DARPARIAETH HYBLYG, CYNNWYS, GWRANDO, HYFFORDDIANT YMWEYBYDDIAETH DIWYLLIANNOL, RHANNU ARFER

AWGRYM: Hyfforddiant ymwybyddiaeth diwylliannol

Os ydych am ddatblygu gwasanaethau a darpariaeth i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yna mae datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth trwy hyfforddiant ymwybyddiaeth diwylliannol yn hanfodol.

Mae Teithio Ymlaen, Sipsiwn a Theithwyr Cymru a Romani Arts yn ymwneud â chyflwyno'r hyfforddiant hwn mewn partneriaeth ag aelodau o'u cymunedau. "Mae angen i hyfforddiant ymwybyddiaeth diwylliannol - gael ei wneud ar nifer o lefelau gyda nifer o grwpiau/gwasanaethau gwahanol a gyda'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr eu hunain ar draws Cymru.

Mae angen iddo fod yn waith parhaus yn y tymor hir nid datrysiad cyflym - mae CYMAINT o botensial heb ei wireddu"

AWGRYM: Cysylltu ag ymarferwyr eraill sy'n gwneud gwaith tebyg

Amlygodd yr ymatebwyr i'n holiadur a'n hastudiaethau achos darpariaeth ddysgu dameidiog a bregus wedi ei hanelu at gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru. Roedd nifer o ymarferwyr yn rhannu gwerth cysylltu ag eraill yn gwneud gwaith tebyg a sut y byddai hyn yn helpu i rannu arfer da wrth symud ymlaen a chefnogi ei gilydd.

"Rhwydwaith o ymarferwyr/darparwyr â diddordeb a phrofiad yn helpu."

AWGRYM: Defnyddio dull strategol o ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Pwysleisiodd Teithio Ymlaen ei bod yn bwysig i sefydliadau ddatblygu dull strategol o wneud y gwaith hwn a sicrhau bod staff uwch a pholisïau yn cyd-fynd â chefnogaeth ac yn galluogi ymarferwyr ar y ddaear.

CYFEIRIO AT SEFYDLIADAU I GAEL RHAGOR O GEFNOGAETH A GWYBODAETH

Teithio Ymlaen

DARLLENWCH RAGOR

Prosiect yng Nghymru yw Teithio Ymlaen sy'n gweithio gyda phobl ifanc a theuluoedd o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Sipsiwn a Theithwyr Cymru (Caerdydd)

DARLLENWCH RAGOR

Nod Sipsiwn a Theithwyr Cymru yw:

- cefnogi Sipsiwn a Theithwyr i wella mynediad at lety addas, gwasanaethau cyhoeddus a sgiliau cyflogaeth.
- Rydym yn ymroddedig i gefnogi Sipsiwn a Theithwyr i fynegi eu hanghenion a'u pryderon, ac i annog polisïau ac arferion sy'n bodloni'r anghenion hyn.

Yn gweithio yn bennaf yn ardal Caerdydd ond hefyd yn ehangach ar draws Cymru.

Partneriaethau Ymestyn yn Ehangach

First Campus
(De Ddwyrain Cymru)

DARLLENWCH RAGOR

Ymgynraedd yn Ehangach De
Orllewin Cymru

DARLLENWCH RAGOR

Ymestyn yn Ehangach
Gogledd a Chanolbarth Cymru

DARLLENWCH RAGOR

Mae'r Rhaglen Ymestyn yn Ehangach yn anelu at gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn addysg uwch o grwpiau a chymunedau a dargedir yng Nghymru trwy gynyddu dyheadau addysgol a sgiliau, a chreu cyfleoedd astudio a llwybrau dysgu blaengar a chreadigol.

Romani Arts

DARLLENWCH RAGOR

Rydym yn sefydliad datblygu cymunedol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y bôn. Arweinir ni gan Sipsiwn a Theithwyr, rydym yn ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr, ac rydym ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Rydym yn credu y gall y gymuned gael ei datblygu i ddod yn gyfranogwyr sy'n cael eu derbyn yn llawn yn y gymdeithas brif-ffrwd gan gadw eu diwylliant a'u treftadaeth unigryw.

Dysgu Oedolion Cymru

DARLLENWCH RAGOR

Darparwyr y ddarpariaeth ddysgu oedolion hyblyg ar draws Cymru.

Partneriaeth Dysgu Oedolion Cymru

Rhwydwaith o ddarparwyr o awdurdodau lleol a Cholegau Addysg Bellach sy'n cyflawni dysgu i oedolion yn y gymuned yw'r Bartneriaeth Dysgu Oedolion. Canolbwyntir y cyflawni ar sgiliau hanfodol a Saesneg i Siaradwyr leithoedd Eraill (ESOL).

Cymru'n Gweithio

DARLLENWCH RAGOR

Cyngor a gwybodaeth ar gyfer dysgu a sgiliau, cyflogaeth a gyrfaedd.

Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru

DARLLENWCH RAGOR

Sefydliad polisi, ymchwil a datblygu annibynnol sy'n ymroddedig i ddysgu gydol oes, cyflogaeth lawn a chynhwysiant. Rydym yn ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio, dylanwadu ar bolisi, datblygu ffyrdd newydd o feddwl, a helpu i weithredu dulliau newydd.

EICH CAMAU NESAF...

Bwriadwyd **y pecyn cymorth hwn** fel man cychwyn i rannu syniadau, beth sy'n gweithio ac amlygu rhai o'r rhwystrau a'r problemau. Byddem yn hoffi parhau'r sgwrs.

Os oes gennych syniadau, barn neu ysbrydoliaeth dywedwch ragor wrthym.

Os oes gennych adnoddau i'w rhannu, enghreifftiau o'r arfer da sy'n gweithio, awgrymiadau a chynghorion, rhowch ddolenni a sylwadau.

Os ydych wedi datblygu darpariaeth neu yn adolygu yr hyn yr ydych yn ei wneud i alluogi gwell mynediad at addysg oedolion i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, rhannwch eich cynlluniau.

DARLLEN PELLACH, ADRODDIADAU A DOLENNI

Cynllun Galluogi Sipsiwn,
Roma a Theithwyr
Llywodraeth Cymru 2018

DARLLENWCH RAGOR

Ffyniant i Bawb: Y
Strategaeth Genedlaethol,
Symud Cymru Ymlaen 2017

DARLLENWCH RAGOR

Deddf Llesiant
Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

DARLLENWCH RAGOR

Dysgu Oedolion yng
Nghymru - 2017

DARLLENWCH RAGOR

Addysg Sipsiwn a Theithwyr:
Ymgysylltu â Theuluoedd -
Adroddiad Ymchwil 2014 -

DARLLENWCH RAGOR

Addysg Sipsiwn a Theithwyr:
Ymgysylltu â Theuluoedd -
Adroddiad Ymchwil 2014 -

DARLLENWCH RAGOR

Cyfarwyddyd 2008
'Symud Ymlaen - Addysg
Sipsiwn a Theithwyr'
(i'w ddiweddaru)

DARLLENWCH RAGOR

Estyn
Addysg disgyblion sy'n Sipsi
Deithwyr: Diweddariad ar y
ddarpariaeth mewn ysgolion
uwchradd - Mehefin 2011,
Estyn

DARLLENWCH RAGOR

Darpariaeth ar gyfer
disgyblion Sipsiwn,
Roma a Theithwyr oed ysgol
uwchradd - Ebrill 2019

DARLLENWCH RAGOR

Teithio Ymlaen
Arfer Da mewn Addysg:
Prosiect Ymchwil
Cymheiriaid- 2014/15 -

DARLLENWCH RAGOR

The underrepresentation of
Gypsy, Roma and Traveller
pupils in higher education
A report on barriers from
early years to secondary and
beyond - comisiynwyd gan
Kings College Llundain 2017

DARLLENWCH RAGOR

Family Learning Works, The
Inquiry into Family Learning
in England and Wales -
NIACE 2013

DARLLENWCH RAGOR

GRT in Further and Higher
Education - Grŵp Facebook

DARLLENWCH RAGOR

Travellers Times

DARLLENWCH RAGOR

DIOLCH

*Hoffem ddiolch yn fawr iawn i
bawb a gyfrannodd at y Pecyn
cymorth hwn. Yn arbennig
felly y dysgwyr a rannodd eu
storïau:*

Leeanne Morgan

Shelley Arthur

Rose Probert

Martin Gallagher

Gemma Turnbull

*Diolch i'n holl aelodau
cymunedol am adael i ni
ddefnyddio eu lluniau ac am
ychwanegu eu llais at y ffilm
a'r deunydd ysgrifenedig.*

*Staff o sefydliadau arbenigol
a roddodd gyngor ar y
strwythur a'r cynnwys:*

Teithio Ymlaen
Trudy Aspinwall

Sipsiwn, Teithwyr Cymru
Gareth Thomas,
Jasmine Jones

Dynamix
Kate McCabe

Ysgol Gynradd Monkton
Shelley Morris

Prifysgol Cymru Y Drindod
Dewi Sant
Cindy Hunt

First Campus
Liz Trigg

Sussex University
Prosiect HEIM

Ymarferwyr a ymatebodd i'n
holiaduron

ASTUDIAETHAU ACHOS

YMARFERWR

Gareth Thomas, Sipsiwn a Theithwyr Cymru

Ymunais â'r tim yn Sipsiwn a Theithwyr Cymru i weithio ar eu prosiect newydd, wedi ei ariannu gan y Loteri Fawr, ym mis Tachwedd 2017.

Anelir prosiect cyflogadwyedd Sipsiwn a Theithwyr Cymru, PROSPER, at roi sgiliau ar gyfer gwaith a bywyd i'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghaerdydd. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau llythrennedd a llythrennedd digidol ac i gefnogi pobl wrth iddynt ddod o hyd i waith a'i gadw a/neu hunangyflogaeth. Er mwyn bod yn effeithiol rhaid i'r rhain gael eu harwain gan anghenion y cymunedau o Deithwyr.

Dywed pobl wrthyf nad yw cnocio ar ddrysau a gofyn i bobl ddod i ddosbarthiadau gwau yn gweithio. Mae gan bob unigolyn anghenion unigol a rhaid ystyried hynny. All hwn ddim bod yn brosiect 'un math yn addas i bawb'. Gwrando ar bobl a chyflawni'r hyn y mae arnynt ei eisiau yw'r cyfle mwyaf.

Un peth yr wyf yn ei ddysgu yn gyflym iawn yw bod ymddiriedaeth yn ffactor mawr; a rhaid ennill ymddiriedaeth. Allwch chi ddim disgwyl i bobl ymateb yn gadarnhaol i brosiect newydd sbon yn syth. Dim ond chwe mis i'r gwaith, rwy'n gwybod bod rhaid i mi fod yn gyson yn fy null a bod y cyfan yn ymwneud ag ymgysylltu; dod i adnabod y cymunedau, dod i adnabod y

teuluoedd, gwrando a cheisio cyflawni yn union beth sydd ar bobl ei eisiau.

Nid yw addysg yn ymwneud a mathemateg a Saesneg yn unig yn y cyd-destun hwn, mae'n ymwneud â bod yn fwy parod i ymdrin â gwirioneddau a phroblemau pob dydd. Cymrwch gostau ynni/ cyfleustodau er enghraifft: nid yw mynd ar-lein i ddod o hyd i'r prisiau ynni gorau yn hawdd i rywun nad oes ganddo'r sgiliau neu'r offer angenrheidiol ond cael bargaen deg ac arbed arian yw'r pethau sy'n bwysig i bobl. Gwnewch y cysylltiad.

Mae amynedd, profi a methu a pheidio â bod yn ddigalon hefyd yn bwysig i mi, yn arbennig os na fydd neb yn dod i gwrs. Er enghraifft, rydym wedi dechrau rhedeg cwrs theori gyrru i rai un ar bymtheg a dwy ar bymtheg oed, ac wrth gwrs, ar yr wythnos gyntaf, ddaeth neb i'r golwg. Mae'n debyg bod hynny oherwydd lleoliad y cwrs (mewn canolfan gymunedol leol nad oedd yn cael ei defnyddio gan y gymuned mewn gwirionedd) felly fe wnaethom roi cynnig arni ar safle Drenwydd Gellifarch ac mae gennym 14 o ddysgwyr cyn belled.

Fel yr unig weithiwr cyflogedig ar y prosiect a'r unig weithiwr amser llawn yn y sefydliad, ni fedraf wneud hyn ar fy mhen fy hun. Yr allwedd i lwyddiant yw partneriaethau ac rwyf yn awyddus iawn i ddatblygu cymaint ag sy'n bosibl. Rwyf wedi bod yn ymchwilio ac am weithredu modelau dysgu teuluol i gefnogi rhieni a phlant ac rwyf hefyd wedi dechrau cysylltu ag ysgolion cynradd ac uwchradd yn yr ardal a'u cyfarfod i edrych ar y rôl y gall ysgolion ei chwarae yn y gymuned, nid yn unig fel lle ar gyfer addysg

ond fel lle hanfodol i ymgynnull a dysgu trwy rannu profiadau.

Mae gwahaniaethau, mae rhwystrau hefyd, ond rydym am i bobl ymgysylltu â'r prosiect hwn a chymryd rhan a chydweithio i ddatrys problemau a all fod ganddynt. Mae'r rhain y nodau cyffredin a rhaid i ni edrych ar yr hyn sy'n debyg, nid y gwahaniaethau, er mwyn chwalu'r rhwystrau hynny, cyflawni a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Cyngor Allweddol:

- 1 Bod yn barod am siomedigaethau ar hyd y ffordd ond derbyn hynny a dal i fynd.
- 2 Meddwl tu allan i'r bocs. Meddwl am ffyrdd gwahanol o ddod at eich gilydd.
- 3 Parchu eich gilydd a chymryd amser i ennyn ymddiriedaeth.
- 4 Bod yn greadigol a 'hyblyg' yw'r unig ffordd ymlaen.
- 5 Peidiwch â chadw'n gaeth at ragdybiaethau.
- 6 Cynigiwch help heb ddisgwyl cael arwain. Gwrandwch a dysgwch.

Cyswllt allweddol:
Gareth Thomas
E-bost: gareth.thomas@gtwales.org.uk

ASTUDIAETHAU ACHOS

SEFYDLIAD

Sipsiwn a Theithwyr Cymru

PROSPER

Beth oedd eich amcanion?

Llwyddodd Sipsiwn a Theithwyr Cymru i gael pum mlynedd o gyllid Loteri Fawr ar gyfer prosiect gwaith a gwella sgiliau yn canolbwyntio ar gefnogi Sipsiwn a Theithwyr yn byw yn ardal Caerdydd. Cychwynnodd prosiect PROSPER Sipsiwn a Theithwyr Cymru ym mis Tachwedd 2017 gydag un aelod o staff llawn amser sydd, yn ychwanegol at ddylunio a chyflwyno'r holl weithgareddau, yn ymgysylltu â'r gymuned trwy allestyn gan roi cefnogaeth trwy fentora i unigolion sydd yn chwilio am waith neu am ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer hunangyflogaeth.

Mae'r prosiect yn rhedeg gweithgareddau wythnosol gan gynnwys clwb gwaith, sgiliau sylfaenol a gwersi theori gyrru ar y safleoedd a reolir gan yr awdurdod lleol ac yn y gymuned. Mae'r prosiect hefyd yn cefnogi nodau'r sefydliad o wella gwasanaethau i Sipsiwn a Theithwyr trwy ddatblygu a chyflawni hyfforddiant "Cyflwyniad i Weithio gyda Sipsiwn a Theithwyr", sydd ar gael i dimau awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol eraill. Pwy sy'n dysgu neu'n cymryd rhan? Mae Sipsiwn a Theithwyr Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r gymuned SRT ers bron i 40 mlynedd ac mae ganddo

nifer o brosiectau sy'n parhau sy'n gallu cyfeirio a chysylltu dysgwyr a'r rhai sy'n cymryd rhan. Mae'r prosiect yn gweithio gyda phobl o bob oed o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghaerdydd. Mae'n gweithio gyda'r rhai sy'n byw ar safleoedd yr awdurdod lleol a rhai preifat yn ogystal â phobl yn byw mewn tai preifat.

Beth sy'n gweithio'n dda a pham?

Mae cael presenoldeb cyson ar safleoedd yr awdurdod lleol wedi datblygu perthynas rhwng staff y prosiect, aelodau o'r gymuned a theuluoedd a hynny yn ei dro yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth y staff o anghenion aelodau'r gymuned a sut y gall nodau a gweithgareddau'r prosiect gael eu cyfateb i hynny.

Mae hyn yn bwysig oherwydd nid yw rhai aelodau o'r gymuned yn defnyddio cyfleoedd sydd ar gael yn y gymuned ehangach e.e. trwy wasanaethau fel Hybiu sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor neu'r Ganolfan Gwaith. Trwy ddefnyddio'r dull hwn mae'r ymgysylltu â'r prosiect wedi gwella ac mae hynny yn ei dro wedi creu canlyniadau positif i aelodau o'r gymuned yn amrywio o gymryd rhan mewn dyddiau hwyl i'r teulu i gyflogi aelod o'r gymuned i weithio ar brosiect ieuencid.

Bu'r gwersi Theori Gyrru yn boblogaidd iawn ymysg pobl ifanc oherwydd mae gyrru yn sgil bwysig am resymau economaidd ac yn angenrheidiol i rai sy'n byw ar safleoedd gyda chysylltiadau teithio gwael. Ers Ionawr 2018 mae'r prosiect wedi cefnogi 9 o ddysgwyr i lwyddo yn eu prawf gyrru. Mae'r staff yn gallu ymwreiddio sgiliau TG a llythrennedd ym mhob sesiwn. Mae sawl un o'r

dysgwyr wedi parhau i ymgysylltu i gael rhagor o gefnogaeth (creu CV, mynediad at addysg bellach, cyngor ar hunangyflogaeth) ac mae hyn yn ei dro wedi helpu i hyrwyddo'r prosiect i deuluoedd y dysgwyr ymhellach gan gynyddu'r ymddiriedaeth yn y gymuned a'u hannog i ymgysylltu ymhellach. Yn 2019 bydd cyrsiau eraill yn cael eu treialu o ran cefnogi Profion Theori LGV a PCV sydd yn arbennig o ddefnyddiol i'r rhai sy'n rhedeg busnesau bach ac angen gyrru cerbydau mwy.

Daeth y bobl ifanc sydd wedi ymwneud â'r cyrsiau hyn yn llwyddiannus yn eiriolwyr dros y prosiect ymhlith aelodau eraill o'r gymuned.

"Tafod leferydd yw eich cyfaill gorau"

Mae prosiect PROSPER hefyd yn cynnig tiwtora un i un hyblyg i'r rhai sydd wedi dynodi bod arnynt angen datblygu eu llythrennedd a'u sgiliau TG. Er iddynt gael eu datblygu i gychwyn fel sesiynau grŵp, pan na wnaeth hyn weithio, cyflwynwyd y sesiynau un i un ac maent wedi bod yn llawer mwy llwyddiannus, maent yn cael eu teilwrio o gwmpas anghenion yr unigolyn, yn ymateb i gyflymder y dysgwr ac yn parchu eu preifatrwydd.

Gweithio mewn partneriaeth

Gwnaeth prosiect PROSPER Sipsiwn a Theithwyr Cymru gysylltiadau gyda sefydliadau eraill sydd eisoes yn gweithio gyda'r gymuned ac mae hefyd wedi gweithredu fel pont i ddysgwyr at sefydliadau prif-ffrwd eraill.

Mae **Dechrau'n Deg** yn rhedeg grŵp chwarae ar y safle Sipsiwn a Theithwyr mwyaf ac eisoes maent yn ymgysylltu â rhieni a theuluoedd. Maent yn cynnig lleoliadau profiad gwaith a chyfleoedd i aelodau o'r gymuned y mae prosiect PROSPER wedi gallu cysylltu â nhw. Mae hyn wedi helpu i ddatblygu perthynas waith a chysylltiadau ac maent wedi rhannu lleoliad. Mae prosiect PROSPER hefyd wedi cysylltu dysgwyr trwy Dechrau'n Deg â darpariaeth wedi ei achredu Agored Cymru.

Cysylltodd y prosiect â **Dysgu Oedolion Cymru**, sydd wedi darparu deunyddiau i ddysgwyr, gan gynnig cymhwyster lefel mynediad ar hyn o bryd ar y Credyd Cynhwysol a Llundio Cyllideb. Mae'r prosiect PROSPER yn cyflogi tiwtor sy'n gallu rhoi cefnogaeth hyblyg iawn i ddysgwyr ar eu cyflymder eu hunain. Erbyn hyn mae'r prosiect PROSPER yn dechrau edrych ar unedau a chymwysterau eraill wrth i'r staff ddatblygu eu dealltwriaeth o'r hyn y gall darparwyr dysg ei gynnig a'r hyn y mae'r dysgwyr yn y gymuned ei eisau.

Mae'r prosiect PROSPER hefyd wedi llunio perthynas dda â **Busnes Cymru** ac mae'r dysgwyr wedi mynychu eu cyrsiau dechrau busnes - "Rhoi Cynnig Arni". Trwy weithio mewn partneriaeth, mae'r sefydliadau wedi gallu lleihau'r fiwrocratiaeth a'r rhwystrau oedd yn atal dysgwyr. Er enghraifft, mae ganddynt fannau cyswllt wedi eu henwi yn Busnes Cymru a all helpu i osgoi rhwystrau fel ffurflenni ymholiadau ar-lein. Mae Busnes Cymru hefyd wedi anfon modelau rôl i'r gymuned i weithio gyda'r prosiect a siarad yn uniongyrchol ag aelodau o'r gymuned sydd am gychwyn busnesau.

Er bod llawer yn meddwl bod cymunedau SRT yn dilyn rolau rhyweddol mwy traddodiadol, canfu'r prosiect hwn bod menywod am sefydlu eu busnesau eu hunain a dilyn y cyrsiau Prawf Theori Gyrru. Mae'n bwysig hefyd peidio â gwneud gormod o dybiaethau a threulio amser yn dod i adnabod unigolion er mwyn cael gwybod mewn beth y bydd gan bobl ddiddordeb yn hytrach na pheryglu colli cyfle oherwydd stereoteipiau hen ffasiwn. Mae prosiect PROSPER wedi llunio partneriaeth gyda'r Sefydliad Dysgu a Gwaith, gan ddefnyddio cyllid i redeg gweithgareddau ymgysylltu ar y ddau safle yn ystod Wythnos Addysg Oedolion yn 2018. Roedd y rhain yn boblogaidd iawn ymhlith plant ar y safle ac yn ei dro roedd yn ffordd wych o ymgysylltu â rhieni.

Beth oedd yr effaith ar y dysgwyr/rhai a gymerodd ran?

Mae Sipsiwn a Theithwyr Cymru yn falch iawn o lwyddiant PROSPER hyd yn hyn, mae wedi gweld hyder yn cynyddu mewn unigolion a chynnydd yn y parodrwydd i ymwneud â gweithgareddau'r tu allan i'w cymunedau SRT.

Yr effaith yw bod y gymuned ehangach yn gweld hyn, a bod hynny yn cychwyn symudiad cyffredinol gyda mwy o aelodau o'r gymuned yn cymryd rhan.

"Mewn rôl gefnogol rydych yn ymdrin ag unigolion sydd â'u hanghenion eu hunain, eu lefelau ysgogiad a'u bywydau cymhleth eu hunain felly mae'n ymwneud â dod o hyd i ffordd i ffitio amcanion y

prosiect o gwmpas unigolion ac mae hynny yn golygu llunio perthynas sy'n gofyn am amser, amynedd a hyblygrwydd o ran sut yr ydym yn rhedeg gweithgareddau. Mae'r ffaith bod y prosiect hwn wedi cael ei ariannu am 5 mlynedd yn ei wneud yn llai heriol."

Y prif sialensiau

- Cael cydbwysedd rhwng yr angen i gyflawni deilliannau'r prosiect i fodloni cyllidwyr â'r angen i gael ymddiriedaeth a llunio perthynas â chymunedau a theuluoedd sy'n cymryd amser.
- Mae hefyd yn cymryd amser i'w hadeiladu
- Mae hefyd yn cymryd amser i lunio perthynas â sefydliadau eraill.
- Gall fod yn heriol rhedeg gweithgareddau a sesiynau cefnogi ar y safleoedd gan nad oes ganddynt yr offer na'r cyfleusterau cywir bob amser.
- Mae gwahaniaethu a hiliaeth gan y gymuned sefydlog yn dechrau mewn ysgolion ac yn parhau i bob elfen o fywyd y Sipsiwn a'r Teithwyr.

Cyswllt allweddol:
Gareth Thomas
E-bost: gareth.thomas@gtwales.org.uk

YN ÔL I'R DUDALEN

ASTUDIAETHAU ACHOS

PROFIAD DYSGWR

Leeanne Morgan

Fe wnes i dyfu lan yn Lloegr ar safleoedd Teithwyr. Nid oedd fy mam wedi mynd i'r ysgol, felly roedd hi am i mi fynd i'r ysgol a chael yr hyn nad oedd hi wedi ei gael. Roedd hi'n dweud bob amser nad oedd dim byd gwaeth na chael llythyr a meddwl, 'Beth mae hwn yn ei ddweud?'

Es i'r ysgol hyd at fy arholiadau TGAU, oedd, bryd hynny, yn yr 80au a'r 90au ddim yn rhywbeth y byddai plentyn o Sipsi yn ei wneud. Fe wnes i wynebu pob math o ragfarn yn fy nghymuned fy hun gyda phobl yn dweud, 'O drychwch ar y ferch ysgol fach' a gwneud hwyl am fy mhen. Yn yr ysgol roedd yn waeth gan fy athrawon yn hytrach na'm cyfoedion gan y byddent yn dweud 'Pam dy fod di am ddysgu? Dwyt ti ddim am wneud dim byd hefo dy fywyd. Dwyt ti ddim yn mynd i fod yn feddyg, dim ond glanhau a chael plant fyddi di.'

Yn blentyn, yn ôl yn y dyddiau hynny, roeddech yn cael eich dysgu i barchu eich athrawon ac roedd gan eich rhieni, hyd yn oed, ofn yr athrawon. Os bydd rhywun yn dweud wrthy eich bod yn ddwl am yn ddigon hir, yna rydych yn dueddol o'i gredu. Eu syniad nhw o addysg i Deithwyr oedd rhoi lluniau o geffylau a throliau a ieir i'w lliwio i chi.

Roeddwn yn ei chael yn anodd yn yr ysgol uwchradd ac fe wnes i adael ar ôl dim ond bron lwyddo yn fy TGAU. Yng Nghymru fe wnes i'r holl swyddi arferol yr ydych yn eu gwneud yn weithiwr tymhorol

ac yna fe ddarllenais am y Prosiect Undod trwy Facebook, a meddwl 'Mi roi gynnig ar hwn, pam ddim? Heb fentro, heb ddim.' Es i'r deg sesiwn oedd yn rhan o'r cwrs, ac er bod pawb arall yn meddwl fy mod yn hyderus, doeddwn i ddim. Rydych chi'n mynd yn dda iawn am actio a chymryd arnoch eich bod yn rhywun nad ydych chi pan fydd raid i chi. Roedd hyder yno ar y tu allan ond fyth ar y tu mewn. Fe wnaeth hyfforddiant Dynamix helpu llawer a'm harwain i ddilyn hyfforddiant wedi ei noddi gan Llywodraeth Cymru. Gyda phob cwrs roedd fy hyder yn cynyddu. Er ei bod wedi cymryd ugain mlynedd a mwy i mi sylweddoli nad oeddwn yn ddwl, o'r diwedd roeddwn yn meddwl falle y gallwn i wneud yr un pethau â phobl eraill.

"Dim ond rhyw bum mlynedd yn ôl y gwnes i fagu diddordeb mewn addysg eto ar ôl ymwneud â Phrosiect Undod Cyngor Sir Penfro oedd yn ceisio galluogi Sipsiwn a Theithwyr i ddefnyddio a datblygu gwasanaethau."

Pan ddaeth y cyllid ar gyfer y prosiect hwnnw i ben, fe glywais am gwrs gradd, ond roeddwn yn amheus iawn o'm gallu i'w ddilyn. Roeddwn yn ôl eto yn ferch ysgol ddeg oed yn crio a chrynu, yn meddwl na fyddai athrawon yn rhoi eu cefnogaeth lawn i rywun fel fi ac y byddwn yn edrych yn ffwl eto.

Ond roeddwn yn benderfynol o ddal ati ac rywbryd wedyn, fe ddaeth y cyfle i wneud gradd Sylfaen mewn Astudiaethau Cynhwysol i Gymorthyddion Dosbarth gyda rhai o'r merched, wedi ei redeg gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Dywedodd y Prosiect Undod y byddai un o'u staff yn gwneud y cwrs ochr yn ochr â fi ac yn fy nghefnogi. Roedd rhai eraill o aelodau'r gymuned i fod i ddilyn y cwrs ar yr un pryd â fi, ond yn anffodus, roedden nhw'n teimlo nad oedd yn addas iddyn nhw ar y pryd a gadael y cwrs. Doeddwn i ddim yn hollol siŵr y byddwn yn gallu ei wneud, ond roedd yn rhaid i mi roi cynnig arni.

Er ei bod yn teimlo'n unig, gallaf ddweud yn ddiffuant mai dyma'r peth gorau, a chaletaf, yr wyf wedi ei wneud erioed oherwydd mae gennyf ddau o blant a gŵr gartref i ofalu amdanynt hefyd. Mae gorffen cwrs gradd Sylfaen, jyglo bywyd cartref a chymdeithasol (wel, doedd gen i ddim un o'r rheini!) yn anodd iawn, ond rwy'n falch iawn bod prosiectau fel hyn ar gael i estyn at y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a chynyddu'r ymddiriedaeth. Nid yw cymryd y cam cyntaf fyth yn hawdd, a gall ymddiriedaeth gael ei cholli trwy lithriad difeddwl.

Nodiadau ychwanegol

- Daeth cyllid y prosiect Undod i ben ac nid yw'n rhedeg bellach.
- Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Dynamix, sefydliad arall fu'n cefnogi Leeanne mewn [astudiaeth achos](#) ar wahân.

Cyngor Allweddol

1. Er mwyn llwyddo rhaid i chi gael uchelgais, i wneud y gwaith cated a derbyn na fydd yn hawdd.
2. Rhaid i chi gael hyder ynoch eich hun a chredu, beth bynnag fydd yr amgylchiadau, y gallwch chi lwyddo.
3. Peidiwch â gadael i fwlis neu ragfarn eich stopio, y bobl hynny fydd yn colli, chi fydd yn ennill.
4. Mae gan diwtoriaid a chyrsgau sydd yn y cymunedau eu hunain lawer gwell cyfle i lwyddo.
5. Mae cyfleusterau crèche am ddim yn gwneud gwahaniaeth anferth i lawer o fenywod.
6. Weithiau mae lleoliadau gwaith wedi arwain at gyflogaeth. Mae'n cael effaith dda ar bethau eraill.
7. Dywedodd Cyfarwyddwr Addysg fy nghwrs, 'Nid ydym yma i feirniadu'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, rydym yma i'w helpu lwyddo yn eu bywyd.' Dwi'n meddwl bod hynny'n wych!



ASTUDIAETHAU ACHOS

SEFYDLIAD

Rhaglen hyfforddi trechu'r tensiynau

Mae Dynamix yn sefydliad cydweithredol cymunedol yn Abertawe. Mae'n rhedeg hyfforddiant ac ymgynghoriadau i'r diben sy'n rhoi'r rhai sy'n ymwneud ag o yn ganolog i'r hyn y maent yn ei wneud.

Roedd hwn yn brosiect Cydraddoldeb a Chynhwysiant oedd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Roedd y prosiect yn rhedeg rhwng 2014 a 2017.

Y nod oedd gweithio ar y cyd gyda Sipsiwn a Theithwyr i ddatblygu cwrs blaengar, cyfranogol i weithwyr proffesiynol ym meysydd tai, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd wrth ddeall ac atal gwahaniaethu yn erbyn Sipsiwn a Theithwyr.

Roedd y prosiect yn seiliedig ar yr egwyddor ganlynol

Y ffordd orau i drechu gwahaniaethu yw galluogi'r bobl sy'n profi'r gwahaniaethu i greu newid. Mae'n well gwneud pethau gyda phobl na gwneud pethau dros bobl.

Gweithio mewn partneriaeth

Roedd y prosiect yn gweithio gyda Teithio Ymlaen, Gwasanaeth Addysg Theithwyr Torfaen a Phrosiect Undod i recriwtio tri grŵp o Sipsiwn a Theithwyr

Sipsiwn a Theithwyr i gymryd rhan

Cymerodd 41 o bobl ran mewn 5 cwrs 'hyfforddi'r hyfforddwyr' yng Nghaerdydd, Sir Benfro, Torfaen, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, Wrecsam a Sir y Fflint. Roeddent yn cynnwys Sipsiwn a Theithwyr a'u staff cefnogi. Cofnododd 94% bod eu hyder wrth ddarparu hyfforddiant wedi gwella a dywedodd 94% bod eu sgiliau i gyflawni hyfforddiant wedi gwella.

Roedd y cyrsiau hyfforddi hyfforddwyr yn rhedeg am bedwar diwrnod a rhoddwyd cymorth i'r rhai a gymerodd ran gyda chostau trafniadaeth a gofal plant. Daeth gweithwyr allweddol o sefydliadau partner hefyd yno i gynniig cefnogaeth ac anogaeth ychwanegol.

Ar ddiwedd y prosiect, trosglwyddwyd y pecynnau hyfforddi i Teithio Ymlaen, sy'n parhau i weithio gyda llawer o'r rhai a gymerodd ran yn wreiddiol i gyflawni'r hyfforddiant.

Gwerthuso'r cwrs hyfforddi'r hyfforddwyr

O'r Sipsiwn a Theithwyr a fu'n bresennol, dywedodd 100% ei fod wedi bod yn eithriadol o gyfranogol

ac wedi rhoi mwynhad, dywedodd 100% eu bod wedi dysgu nifer eithriadol o ddulliau hyfforddi newydd, dywedodd 100% eu bod yn teimlo yn eithriadol o hapus am gyflwyno hyfforddiant ac am barhau i fod yn rhan yn y dyfodol a dywedodd 100% bod ganddynt lefel eithriadol o lais yn nyluniad y cwrs.

Ynglŷn â hyfforddi'r gweithwyr proffesiynol

Cyflwynwyd 22 o gyrsiau i 329 o weithwyr proffesiynol ym meysydd tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol am Ddeall Sipsiwn a Theithwyr.

Argymhellion

Dylai'r cwrs hyfforddi hwn barhau i fod ar gael i lawer o weithwyr proffesiynol a grwpiau cymunedol yng Nghymru. Dylai sefydliadau partner barhau i dderbyn cefnogaeth i gyflawni'r hyfforddiant hwn. Dylid creu cyfleoedd newydd i Sipsiwn a Theithwyr i gyd-gyflwyno'r cyrsiau hyn.

Mae'r model hwn hefyd yn gweithio gyda grwpiau eraill

Mae Dynamix yn defnyddio model tebyg wrth weithio gyda Cheiswyr Lloches a Ffoaduriaid i ddatblygu hyfforddiant ar gyfer staff a disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd.

Cyswllt allweddol:

Kate McCabe,

Swyddog Prosiectau a Datblygu

Ebost: kate@dynamix.coop

YN ÔL I'R DUDALEN

PROFIAD DYSGWR

Rose Probert

Rwy'n dod o gefndir Sipsiwn Teithwyr ac er bod fy addysg gychwynnol yn gadarnhaol, nid oedd gennyf yr hyder ac roeddwn yn gorfod canolbwyntio ar ofalu am fy mrawd anabl. Felly, fe adawais yr ysgol gyda graddau TGAU isel a dim ond yng nghanol fy ugeiniau y cefais ail gyfle i gael addysg. Fe gymerais y cyfle i gefnogi disgyblion Sipsiwn a Theithwyr mewn ysgol uwchradd, roedd yr holl staff yn gefnogol iawn ac roeddent yn gweld y potensial ynof fi a'm hannog i gwblhau cymhwyster Cymhorthydd Dysgu NVQ Lefel 3. Roeddwn yn feichiog gyda fy merch Olivia ar adeg cwblhau'r cymhwyster.

Mae'n debyg bod fy nghyfleoedd i fynd yn ôl i ddysgu wedi cychwyn o ddifri pan wnes i ymuno â dosbarthiadau dysgu oedolion yn Ysgol Gymunedol Monkton Priory,

gan astudio ar fin nos. Saesneg oedd fy TGAU cyntaf, cefais radd B ac wedyn, o hynny ymlaen, roedd dysgu wedi cael gafael arnaf!

Fe nghanam nesaf oedd gradd mewn Astudiaethau Cynhwysol mewn Addysg. Nid oeddwn yn meddwl bod y gallu ynof i wneud cymhwyster mor uchel, ond fe wnes i a graddio gydag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf. Fe gefais flwyddyn o seibiant ac wedyn penderfynu fy mod am hyfforddi yn benodol mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan bod hynny'n addas i'r llwybr gyrfa sydd gennyf yn awr. Llwyddais i gwblhau Tystysgrif Ôl-raddedig ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a llwyddais gyda Chlod. Rwyf wedi bod yn gweithio yn y proffesiwn hwn ers 18 mlynedd yn awr ac rwyf wedi cael y cyfle i symud ymlaen.

Ar hyn o bryd rwy'n gweithio fel Rheolwr Mynediad at Ddysgu mewn ysgol lle'r wyf hefyd yn Bennaeth Tŷ, gan annog 200 a mwy o ddisgyblion i lwyddo trwy fy rôl fel mentor. Rwy'n rhannu'r rôl hon gyda chydweithiwr, ac wrth fy modd gyda'r gwaith.

Trwy fy nghariad at ddysgu cefais fy enwebu am Wobr Ysbrydoli! a enillais yn 2016. Ers ennill y wobwr hon mae nifer o ddrysau a chyfleoedd wedi agor i mi. Rwyf wedi cael fy annog ymlaen gan nifer o bobl arbennig ar hyd fy nhaith addysgol ac rwyf fi wedi cymryd y rôl o annog pobl i fynd yn ôl i addysg bellach yn fy nghymuned. Os ydych chi'n meddwl am eich camau nesaf, fe fyddwn yn argymhell edrych ar beth sy'n digwydd yn eich cymuned leol – ewch â ffrind gyda chi os ydych chi braidd yn ofnus. Mae gan addysg oedolion lawer i'w gynnig. Rwyf fi'n brawf y gall unrhyw un lwyddo os gwnewch chi gredu ynoch eich hun. Mae pawb yn yr un cwch, rhwch gynnig arni, oherwydd wyddoch chi ddim i ble y gall fynd â chi.

“Trwy fy nghariad at ddysgu cefais fy enwebu am Wobr Ysbrydoli! a enillais yn 2016. Ers ennill y wobwr hon mae nifer o ddrysau a chyfleoedd wedi agor i mi.”

ASTUDIAETHAU ACHOS

SEFYDLIAD

Launch: Ysgol Gynradd Monkton Priory

Mae Ysgol Gynradd Monkton Priory wedi bod ar ymgyrch i ymgysylltu rhieni a'r gymuned ehangach mewn dysgu oedolion ers blyneddau. Nid yw'r ysgol wedi sefyll yn llonydd ond mae wedi symud ymlaen, yn arloesi a datblygu darpariaeth sydd wedi newid bywydau llawer.

Yn 2012 creodd y Brifathrawes, Shelley Morris, Launch Dysgu Oedolion, dywed, "Ein cenhadaeth oedd darparu addysg oedolion yn y gymuned. Mae gan y prosiect ddiben clir – cyflawni'r deilliannau gorau, cynyddu cyrhaeddiad a dyheadau plant yn y lleoliad ac mae hyn yn mynd law yn llaw â chynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu, sgiliau a chymwysterau i rieni."

Mae cyrsiau wedi eu hachredu ar gael ac wedi eu dylunio i gael gwared ar rwystrau fel bod rhieni a'r gymuned ehangach yn gallu cael hyder a'r sgiliau i gael gwaith. Mae'r ysgol yn gweithredu mewn amgylchedd lle mae gan 50% o'r plant hawl i brydau ysgol am ddim, 40% o'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol, 30% o'r plant o gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Cyflogwyd cydlynnydd Addysg Oedolion gan yr ysgol i gyflwyno Launch – holwyd y rhieni a'r gymuned ehangach am y cyrsiau yr oeddent yn eu dymuno ac

ystyriwyd beth yr oedd cyflogwyr lleol yn chwilio amdano, er mwyn galluogi i rai o'r rhwystrau oedd yn atal pobl rhag mynd i waith gael sylw. O ganlyniad, roedd hyfforddiant Diogelwch Safle yn rhan allweddol o'r hyn a gynigiwyd – gan ddenu llawer o ddynion yn y gymuned a rhoi cyfle iddynt gael gwaith gan un o gyflogwyr mwyaf yr ardal.

Mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion i greu cyfleoedd. Un o'r prif rwystrau oedd yn atal dysgu i fyfyrwyr oedd gofal plant. Erbyn hyn mae Launch yn cynnig crèche am ddim gyda phob cwrs, ond amlygodd hyn brinder o ran y gweithwyr crèche o safon oedd ar gael. Yn hytrach na gadael i hyn atal datblygiadau, gwnaeth Launch gais i ddod yn ganolfan ddysgu oedd yn eu galluogi i ysgrifennu a chyflwyno cyrsiau wedi eu hachredu, wedi eu gwneud yn benodol yn ôl anghenion y gymuned. Kellie Bellmaine yw cydlynnydd Launch, dywedodd "Fe gefais y cymwysterau gofynnol i ddod yn diwtor ac ysgrifennu cwrs gweithiwr crèche wedi ei achredu, oedd yn cynnwys cymhwyster diogelu. Erbyn hyn mae gennym gronfa o weithwyr crèche cymwys, ac maent wedi cael gwaith, nid yn unig gennym ni, ond gyda sefydliadau partner eraill hefyd."

Un o nodau allweddol y cynllun Launch yw symud ymlaen i fyfyrwyr, ac roedd yr adborth yn dangos bod hyn yn rhywbeth yr oedd y gymuned yn ei ddymuno hefyd. Un berthynas bwysig a llwyddiannus iawn yw'r un gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae allestyn yn golygu, ers 2012, bod myfyrwyr yn gallu astudio gradd Sylfaen mewn addysg Gynhwysol yn yr ysgol. Roedd hyn mor llwyddiannus fel bod myfyrwyr yn awr yn gallu astudio am un

flwyddyn ychwanegol a chael Gradd BA mewn Addysg Gynhwysol.

Mae Lisa Wilson yn rhiant sydd wedi defnyddio'r cyrsiau, mae ganddi wyth o blant ac yn fam-gu i dri. Dywedodd, "Fe gysylltwyd â mi i gychwyn gradd Sylfaen yn yr ysgol. Ni fedrwn droi cyfrifiadur ymlaen hyd yn oed, ond fe roddwyd fy enw ar y cwrs Camau Cyntaf ac fe wnes i ddilyn cwrs arall i wella fy sgiliau TG. Nid oeddwn wedi astudio ers gadael yr ysgol ond roeddwn yn teimlo ei bod yn bryd i mi wneud rhywbeth i mi fy hun a bod yn fodel rôl cadarnhaol i'm plant a'm wyrion." Ar ôl cael y radd Sylfaen, graddiodd Lisa yn BA yn 2016.

Mae pedwar grŵp blwyddyn yn awr yn rhedeg ar fin nos, ers 2012, mae 79 o fyfyrwyr wedi cael gradd Sylfaen, 53 o fyfyrwyr wedi cael gradd BA lawn, gyda 18 o'r rhain yn dweud eu bod yn SRT (Sipsiwn Roma Teithwyr). Mae'r dull blaengar hwn yn golygu bod gan yr ysgol erbyn hyn saith o Gymhorthyddion Cefnogi Dysgu yn gweithio yn yr ysgol gyda graddau ac ar ddiwedd 2016 cysylltodd Prifysgol Y Drindod Dewi Sant â Launch i gynnig rhaglen radd ran-amser arall mewn Gwaith leuenctid a Chymunedol.

"Dysgu Gyda'n Gilydd yw arwyddair ein hysgol. Mae'r plant yn gweld nad yw addysg yn dod i ben pan fyddwch yn mynd yn oedolyn, mae gweld eu rhieni ac oedolion eraill yn astudio yn anfon neges rymus am bwysigrwydd dysgu, ac mae'n cael effaith gadarnhaol iawn ar fywydau'r plant a'r oedolion."

YN ÔL I'R DUDALEN

ASTUDIAETHAU ACHOS

SEFYDLIAD

First Campus, yn Cefnogi Fforymau Ieuenctid

Mae First Campus wedi gweithio gyda Teithio Ymlaen ers 2015 i gefnogi Fforymau Ieuenctid Rhanbarthol De Cymru. Mae'r Fforymau yn gadael i deithwyr ifanc i ddod at ei gilydd i drafod materion cyfredol y maent yn eu hwynebu, mae eu cynnal mewn Prifysgol yn ffordd gynnil o godi ymwybyddiaeth o'r cyfleusterau addysgol sydd ar gael ar y trothwy. Mae pobl ifanc o Gasnewydd, Torfaen, Blaenau-Gwent, Caerdydd a Merthyr wedi bod yn bresennol.

Mae'r bobl ifanc yn trefnu'r gweithdai yn y Fforymau eu hunain, mae First Campus wedi cyfrannu ar ffurf sgysiau 'Bywyd Prifysgol', teithiau o gwmpas y campws a sesiynau blasu e.e. Animeiddio. Mae'r sesiynau wedi cynnwys Seiat Holi gyda Jeff Cuthbert (Comisiynydd Heddlu a Throsedd Heddlu Gwent) a John Griffiths (Aelod Cynulliad).

Eleni, maent yn bwriadu cynnwys Able Radio yng Nghwmbrân, a chynnig cyfle i'r bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithdai yn ymwneud â chreu jingles a darlledu.

Pwy sydd wedi cymryd rhan?

Gwelwyd cymysgedd o ran rhyw ac ystod oedran o blith rhai 11 i 18 oed, gyda'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc tua 14 oed. Gall y nifer sy'n cymryd rhan amrywio ond fel arfer mae tua 12-15 o bobl yn dod i'r fforymau.

Maent hefyd yn gweithio gyda grŵp cynllunio llai o 2 i 4 o bobl ifanc.

Sut mae hi wedi mynd?

Mae'r bobl ifanc wedi mwynhau'r gweithgareddau – mae un unigolyn wedi mynd ymlaen i'r 6ed dosbarth erbyn hyn ac yn dymuno mynd yn athro. Chwaraeodd gweithiwr allweddol yn yr ysgol rôl hanfodol yn cysylltu â First Campus, ac i drefnu taith o gwmpas y campws a chael sgwrs am addysgu.

Gweithio mewn partneriaeth yn allweddol

Mae'r prosiect yn ddibynnol ar gydweithio rhwng sefydliadau ac unigolion allweddol. Teithio Ymlaen sydd yn gyfrifol yn y pen draw am redeg y fforymau gweithwyr allweddol o'r Awdurdod Lleol, yn gweithio yn yr ysgol, sy'n ymgysylltu â'r myfyrwyr iddynt gymryd rhan yn y prosiectau. Mae'r rolau hyn yn hollol hanfodol gan fod ganddynt ymddiriedaeth gan y bobl ifanc a pherthynas â nhw.

First Campus – Yn trefnu'r fforymau yn y de ddwyrain ac yn cysylltu gyda'r asiantaethau, academyddion a chynrychiolwyr myfyrwyr perthnasol i gyflawni'r rhaglen o weithgareddau y mae'r bobl ifanc yn gofyn amdanynt

Techniquet – wedi darparu gweithdy a gweithgareddau blasu

Winding Snake Animation – wedi darparu gweithdy a gweithgareddau blasu

Able Radio – yn barod fel partner at y dyfodol i ddatblygu sesiynau radio cymunedol

Sut y cafodd y prosiect/cynllun ei ariannu?

Cyllido cymysg. Mae Llywodraeth Cymru yn talu i Teithio Ymlaen redeg y Fforymau. Mae First Campus yn darparu'r darnau ychwanegol ac amser staff trwy Gyllid Ymestyn Ymhellach

Beth oedd y deilliannau allweddol?

- Mae gweithwyr allweddol yn rhoi'r adborth bod presenoldeb ac ymgysylltu mewn ysgolion yn gwella o flwyddyn i flwyddyn, yn dweud eu bod wedi gweld cynnydd da iawn dros gyfnod hir o amser
- Maent yn meithrin ymddiriedaeth
- Maent yn dod o hyd i lwybrau symud ymlaen i rai o'r bobl ifanc
- Cynnig cyflwyniad cynnil ar delerau'r bobl ifanc
- Casglu data – nid yw Cymunedau SRT yn cael eu dynodi yn grŵp sy'n cael blaenoriaeth gan First Campus. Fodd bynnag, mae First Campus yn rhoi adroddiad am eu hymgysylltu â chymunedau SRT fel grŵp 'anodd ei gyrraedd' yn eu targed WIMD40.

Sialensiau

Gall presenoldeb amrywio, a chysondeb y presenoldeb, pobl ifanc wahanol yn ymgysylltu bob tro.

Argymhellion allweddol

- Bydd arnoch angen dull tringar iawn yn debyg i ymgysylltu â phobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal
- Rhowch gydbwysedd da o'r hyn y mae arnynt ei eisiau – wedi ei arwain gan y bobl ifanc ar y cyflymder sy'n iawn iddyn nhw, nhw sy'n rheoli.
- Mae arnom angen modelau rôl SRT a all rannu eu profiad o ddysgu.
- Gwneud dysgu yn hygyrch iddynt, fel eu bod yn gallu dod yn ôl yn nes ymlaen
- Efallai na fyddant yn ymgysylltu neu yn parhau i ymgysylltu ar hyn o bryd, ond rydym yn hau'r hadau a gobeithio y byddant yn sylweddoli y gallant ddod yn ôl at addysg yn nes ymlaen, pan fyddant yn oedolion, ac y byddant wedi cael profiad cadarnhaol.

Cyswllt Allweddol

Liz Trigg

Ebost: liz.trigg@southwales.ac.uk

First Campus yw'r Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach ar gyfer De Ddwyrain Cymru sy'n cael ei ariannu gan CCAUC.



YN ÔL I'R DUDALEN

ASTUDIAETHAU ACHOS

SEFYDLIAD

Gradd Sylfaen a BA Addysg Gynhwysol

Crynodeb

Mae Prifysgol Y Drindod Dewi Sant wedi bod yn cynnig Gradd Sylfaen a BA mewn Addysg Gynhwysol mewn modd hyblyg mewn lleoliadau cymunedol i ehangu'r mynediad i grwpiau newydd o ddysgwyr sy'n oedolion. Mae'n gynnydd llwybr symud ymlaen i Ddysgu Cymunedol i Oedolion.

Mae'r cynllun wedi rhedeg ers 2011 gan gynnig rhaglenni allestyn mewn amrywiol leoliadau yn:

- Y Drenewydd
- Aberystwyth
- Penfro - Ysgol Monkton
- Caerfyrddin
- Abertawe - Ysgol Sant Thomas

Gweithio mewn partneriaeth yn allweddol

Ym Mhenfro roedd y prosiect yn gweithio yn glos gydag ysgol Monkton a phrosiect Launch sy'n rhedeg dosbarthiadau addysg oedolion o'r ysgol. Maent yn allweddol wrth ymgysylltu â dysgwyr sy'n oedolion a'u cefnogi i symud ymlaen i ddilyn y radd Sylfaen.

Mae cyllid partneriaeth amrywiol ar gael i symud y dysgwyr ymlaen i Addysg Uwch. Gall dysgwyr wedyn wneud cais am fwrsariaeth a benthyciadau i gynnal ffioedd eu cwrs.

- Rhwng 2011 - 2018 - roedd 79 o ddysgwyr yn rhan o radd Sylfaen
- 18 ohonynt o'r gymuned SRT
- O'r rhain, aeth 53 ymlaen i astudio BA / 18 o'r gymuned SRT
- Aeth 1 ymlaen i astudiaeth ôl-radd
- Merched o bob oed yn bennaf

Deilliannau

Deilliannau cyflogaeth

Aeth dysgwyr o'r cymunedau SRT ymlaen i'r swyddi canlynol:

- Pennaeth Uned Anghenion Arbennig mewn Ysgol Uwchradd
- Swyddog Addysg Oedolion
- Cydlynnydd Prosiect Priory (Ysgol Monkton)
- Dechrau'n Deg (Ysgol Monkton)
- Cymhorthyddion Cefnogi Dysgu - Dosbarth Derbyn - Blwyddyn 6 (Ysgol Monkton)

Effaith

- Hyder
- Cymwysterau
- Gwaith

Sialensiau a llwyddiannau

- Nid yw llawer o gymunedau SRT am ddatgelu eu cefndir.
- Gan ddibynnu ar seilwaith cymunedol, sefydlwyd canolfan ddysgu wirioneddol yn Ysgol Monkton Priory gyda chyllid a chyfleusterau crèche yn hanfodol.

Argymhellion allweddol

- Mae cynyddu ymddiriedaeth yn cymryd amser, mae'n ymwneud â pherthynas bersonol (nid un sefydliadol).
- Mae staff allweddol yn hanfodol i weithredu fel y ddolen yn y gymuned.
- Mae'r cyfan yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth

Cyswllt allweddol:

Cindy Hunt,

Cyfarwyddwr Rhaglen FD/BA Addysg Gynhwysol

Ebost: c.hunt@uwtsd.ac.uk

ASTUDIAETHAU ACHOS

PROFIAD DYSGWR

Shelley Arthur

Ar hyn o bryd mae Shelley yn astudio gradd meistr mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn Cymdeithas gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae'n anelu at barhau ei hastudiaethau i gael PhD.

Wedi ei magu yn Noc Penfro gyda'i brawd a'i mam, sydd o gefndir Teithwyr. Arhosodd Shelley yn yr ardal fel oedolyn ac mae ei merch 10 oed yn mynd i'r ysgol leol. Gadawodd Shelley yr ysgol yn 16 oed, gyda charlyniadau TGAU gwael, aeth i'r coleg, ond gadawodd ar ôl ychydig wythnosau, cyfarfod ei gŵr cyntaf ac roedd yn briod yn 18 oed a chael merch yn y flwyddyn gyntaf.

Ar ôl i'w pherthynas chwalu, roedd yn fam sengl, ei hyder yn brin ac yn brwydro i fyw ar fudd-daliadau.

Daeth ei chyfle pan ddechreuodd wirfoddoli yn ysgol ei merch. Roedd yr ysgol (Ysgol Gynradd Doc Penfro) yn groesawus iawn ac yn annog rhieni i gymryd rhan. Ar ôl cyfnod roeddent yn rhoi cyfle i'r gwirfoddolwyr ddilyn NVQ Lefel 2 oedd yn cael ei ddarparu yng Ngholeg Sir Penfro gerllaw.

Arweiniodd ei NVQ mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu, at gael swydd yn yr ysgol fel Cynorthwydd Cefnogi Dysgu.

Ar ôl cwblhau'r NVQ yn llwyddiannus, daeth i wybod am y radd Sylfaen mewn Addysg Gynhwysol a'i fod yn agored i bawb.

Aeth Shelley draw i ddiwrnod blasu yn yr ysgol. Mae'n disgrifio cyfarfod Cindy, Cyfarwyddwr y rhaglen, ac yn dweud ei bod yn allweddol wrth wneud iddi ymrwymo i ddilyn y cwrs. "Roedd mor groesawus, ac nid oedd yn ymddangos yn well na mi o gwbl, ac roedd yn gwneud i bawb deimlo y gallent ei wneud. Fe wnaeth Cindy a finnau ddeall ein gilydd yn syth, roedd hynny'n allweddol."

Roedd Shelley yn adnabod rhai o'r dysgwyr eraill oedd yn gwneud y cwrs ac yn gysylltiedig ag ysgol Monkton. "Roedd merched eraill o'r gymuned Teithwyr yn gwneud y cwrs ac yn dweud ei fod yn dda iawn, felly mi wnes i'r cwrs hefyd."

Roedd y radd Sylfaen yn cael ei chyflwyno yn Ysgol Monkton Priory ar fin nos. Roedd yn bwysig iddi ei bod yn gallu dal ati i weithio tra'r oedd yn astudio. Ar ôl hynny, aeth ymlaen i gael y Radd BA lawn, oedd hefyd yn cael ei chyflwyno yn yr ysgol.

Effaith dysgu ar fywyd Shelley

Mae wedi newid fy mywyd yn llwyr, roeddwn yn byw ar y dŵl heb waith a nawr rwy'n edrych ar swyddi na fyddwn erioed wedi breuddwydio amdany'n nhw."

"Mae ei merch, sydd yn ddeg erbyn hyn, wedi tyfu yn gweld ei mam yn astudio ac mae Shelley yn teimlo yn falch iawn o fod yn fodel rôl iddi hi a chynyddu ei dyheadau at y dyfodol. "Mae fy merch wedi fy ngwyllo i yn llwyddo."

"Gadawodd fy mam yr ysgol yn 11 oed a brwydro ymlaen ar hyd ei hoes gyda 3 neu 4 o swyddi, mae hi'n gefnogol iawn i mi ac yn falch ohonof."

"Mae cael fy ngradd gychwynnol wedi rhoi'r hyder i mi i fynd ymlaen i wneud y cwrs Meistr". Mae'r cwrs Meistr yn cael ei gyflwyno yng Nghaerfyrddin ar ddydd Sadwrn ac mae tiwtoriaid gwahanol arno ond mae'n dal i gael ei gyflwyno gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Cred Shelley mai'r hyn a wnaeth wahaniaeth iddi hi wrth gymryd ei chamau cyntaf i ddysgu, oedd cael ei hysgogi i weithio er ei mwyn ei hun a'i merch ac hefyd gweld bod eraill o'i chymuned yn cymryd rhan hefyd.

Mae wedi cael llawer o gefnogaeth gan ei theulu a'i chymuned.

"Gadawodd fy mam yr ysgol yn 11 oed a brwydro ymlaen ar hyd ei hoes gyda 3 neu 4 o swyddi, mae hi'n gefnogol iawn i mi ac yn falch ohonof."

Hoffai Shelley barhau ei hastudiaethau a dechrau PhD ar ôl ei gradd Meistr. Ar hyn o bryd mae'n gweithio fel Cymhorthydd Dysgu mewn uned arbenigol mewn ysgol prif-ffrwd. Mae'n angerddol am weithio gyda phlant gydag anghenion ychwanegol ac yn y pen draw byddai'n hoffi gweithio mewn rôl Ymgynghorol ar draws y Sir.

Awgrymiadau da Shelley

- Deall gwahaniaethau pobl.
- Cysylltu â chyfleoedd gwaith gwirioneddol. Roedd yn dda iawn ymwneud â'r cwrs tra roeddwn yn gwirfoddoli ac yn gweithio yn yr ysgol - mae'r cwrs yn eich gwneud yn well yn eich gwaith.
- Cael eraill fel modelau rôl.

Beth sydd wedi ei helpu ar hyd y ffordd

- Meddwl am y seremoni raddio ar y diwedd a'i merch yn ei gweld yn croesi'r llwyfan
- Cefnogaeth ei mam ac aelodau eraill o'r teulu
- Grŵp What's App – i'r myfyrwyr a'r tiwtor, cael tiwtoriaid da hawdd cysylltu â nhw sy'n ei deall hi

ASTUDIAETHAU ACHOS

SEFYDLIAD

Defnyddio dull strategol o ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Mae'n bwysig i sefydliadau ymdrin ag ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn Roma a Theithwyr ar lefel strategol yn eu sefydliadau: mae ymrwymiad i'r gwaith hwn a pharodrwydd uwch reolwyr i gefnogi yn hanfodol os yw'n mynd i fod yn effeithiol

Dyma'r argymhellion allweddol gan **Teithio Ymlaen** lle maent yn tynnu ar arfer da o'u profiad eu hunain a gwaith arall a gyflawnwyd gan ddarparwyr addysg

Argymhellion allweddol

1. Sicrhau bod gennych gynllun i'r sefydliad ar gyfer y gwaith hwn a sicrhau bod gweithio gyda Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael ei ddynodi fel blaenoriaeth yn y cynlluniau priodol
2. Rhoi adnoddau (amser yn ogystal ag unrhyw adnoddau ariannol) a'i ymwreiddio mewn rolau staff allweddol ar lefel strategol ac ymarferol
3. Gosod targedau a monitro cynnydd
4. Ymwreiddio ym mholisiau a gweithdrefnau eraill y sefydliad, er enghraifft adolygwch eich polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth, gweithdrefnau ar gyfer rhoi adroddiad am wahaniaethu, cwynion
5. Ystyried pa mor gynhwysol, cynrychioliadol a chroesawus yw eich cyrsiau/gofodau/deunyddiau cyhoeddusrwydd/digwyddiadau/cwricwlwm a chynnwys cyrsiau i fyfyrwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
6. Hyfforddi staff ar bob lefel
7. Cynnwys ac ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r cymunedau yn eich cynllunio a'ch monitro ar bob cam

“Ni ddylid datblygu dim ar gyfer aelodau'r gymuned heb aelodau o'r gymuned”

Cyswllt allweddol:

Trudy Aspinwall

E-bost: Trudy.Aspinwall@tgpcymru.org.uk

ASTUDIAETHAU ACHOS

PROFIAD DYSGWR

Gemma Turnbull

Gadawodd Gemma'r ysgol yn 16 oed heb unrhyw gymwysterau. Roedd mam-gu Gemma o gymuned o deithwyr a gadawodd ei mam yr ysgol yn 14 oed. Cafodd ei phlentyn cyntaf yn 16 oed ac aeth ymlaen i gael tri phlentyn arall.

Am ei bod am sicrhau gwell dyfodol i'w theulu, dechreuodd Gemma edrych ar gyfleoedd dysgu yn ei chymuned leol a chofrestru ar gwrs blasu Dyniaethau 10 wythnos mewn ysgol gynradd yn Noc Penfro, oedd yn cael ei gyflwyno gan Adran Addysg Barhaus Oedolion (AABO), Prifysgol Abertawe. Yn dilyn y cwrs hwn, penderfynodd gofrestru ar eu cwrs Tystysgrif Sylfaenol Rhan-amser mewn Dyniaethau, oedd yn cael ei gynnig yn yr ysgol hefyd.

Gemma yw gwarcheidwad cyfreithiol ei dwy nith a nai, ac mae'n dweud, "Ar y dechrau, roeddwn yn poeni sut yr oeddwn yn mynd i ymdopi â bod yn fyfyrwraig gyda chymaint o gyfrifoldeb ond fe benderfynais yn gyflym iawn fy mod wedi dod cyn belled a'm bod am wneud rhywbeth ohonof fy hun a gwneud y plant yn falch ohonof."

Ar ôl cwblhau'r Dystysgrif Sylfaen yn llwyddiannus, cofrestrodd ar y cwrs Gradd Dyniaethau rhan-amser yn Adran Addysg Barhaus i Oedolion Prifysgol Abertawe. "Mae fy astudiaethau wedi newid fy mywyd! Rwy'n cyfaddef fod bod yn fyfyrwr a mam wedi bod yn heriol ar adegau, ond nid yw'n amhosibl! Yn ystod fy astudiaethau cefais ddiagnosis o ddyslecsia a dyspracsia ac rwyf wedi gallu defnyddio amrywiaeth o wasanaethau a dulliau cefnogi i'm cynorthwyo yn ystod fy astudiaethau."

Trwy ei hastudiaethau mae Gemma wedi penderfynu ei bod am fod yn athro ysgol gynradd. Ar ôl graddio, mae'n bwriadu cael TGAU mewn Saesneg a Mathemateg i'w galluogi i ymgeisio am Dystysgrif Addysg Ôl-radd. Mae ei hastudiaethau wedi ei hysbrydoli a rhoi'r hyder iddi i ymgeisio i fod yn llywodraethwraig ac fe'i hetholwyd i'r swydd yn llwyddiannus.

Mae ffilm am stori Gemma yma

GWYLIWCH

Cyswllt allweddol:
Adran Addysg Barhaus Oedolion (AABO)
Prifysgol Abertawe
01792 602211

"Ar y dechrau, roeddwn yn poeni sut yr oeddwn yn mynd i ymdopi â bod yn fyfyrwraig gyda chymaint o gyfrifoldeb ond fe benderfynais yn gyflym iawn fy mod wedi dod cyn belled a'm bod am wneud rhywbeth ohonof fy hun a gwneud y plant yn falch ohonof."